

PHILLIPS, DAVID RHYS (1862 - 1952), llyfrgellydd

Enw: David Rhys Phillips
Dyddiad geni: 1862
Dyddiad marw: 1952
Priod: Anne Phillips (née Watts)
Priod: Mary Phillips (née Hancock)
Rhiant: Gwenllian Phillips (née Rees)
Rhiant: David Phillips
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llyfrgellydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Brynley Francis Roberts

Ganwyd 20 Mawrth 1862 yn Beili Glas, Pontwalbi, Glyn Nedd, Morgannwg, fferm ei dad-cu, yn fab i David Phillips a Gwenllian, ganwyd Rees; ond magwyd ef ym Melin-cwrt, Resolfen, cwm Nedd. Addysgwyd ef yn yr ysgol genedlaethol, Resolfen, a Burrows School, ac Arnold College, sef ysgolion preifat yn Abertawe. Wedi cyfnod yn löwr, yn 1893 cafodd le yn gysodydd ac yn ddarllenydd profleuni yn swyddfa argraffu Walter Whittington, Castell-nedd, a gweithredu hefyd yn bostmon cynorthwyol, ond yn 1900 aeth i Rydychen yn ddarllenydd i Wasg Prifysgol Rhydychen. Penodwyd ef yn olygydd *Beibl Cymraeg* 1908 ond yn bwysicach, mynychodd gyrsiau mewn llyfrgellyddiaeth yng Ngholeg Technegol Rhydychen. Dychwelodd yn Gynorthwywr Cymraeg i Lyfrgell Bwrdeisdref Abertawe yn 1905 wedi ennill Diploma Cymdeithas y Llyfrgelloedd ac ef a oedd yn gyfrifol am gatalogio'r adran Gymraeg (casgliad [Robert Jones](#), Rotherhithe (1810 - 1879), yn bennaf). Etholwyd ef yn F.L.A. yn 1913, ac yn F.S.A. (Scotland) yn 1920-21. Codwyd ef yn Llyfrgellydd Cymraeg a Cheltaidd y Fwrdeistref ac yna yn 1923 yn gydlyfrgellydd gyda W. J. Salter hyd nes iddo ymddeol yn 1939.

Ymddiwylliodd D. Rhys Phillips yng nghyfarfodydd cymdeithasau llenyddol Resolfen a Chastell-nedd a thaniwyd ef yn gynnar yn ei yrfa i chwilota i hanes y fro, i ysgrifennu erthyglau difyr i'r wasg a'r cylchgronau Cymraeg ac i gystadlu mewn eisteddfodau. Lluniodd nifer o draethodau sylweddol ar destunau cerddorol a bywgraffyddol ar gyfer cystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol (1931, 1932, 1936, 1938, 1948, 1949). Bu'n weithgar mewn llawer o gymdeithasau Cymraeg, yn eu plith Cymdeithas Canu Gwerin, Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, Bwrdd yr Orsedd; yr oedd yn Geltegwr brwd, yn un o hyrwyddwyr y Gyngres Geltaidd yn 1917 a'i Hysgrifennydd hyd 1925, a bu â rhan yn sefydlu Gorsedd Cernyw yn 1928. Cyhoeddodd nifer o erthyglau ar ddatblygu'r gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus ond ei ddiddordeb pennaf oedd hanes llyfryddiaeth ac argraffu. Yr oedd yn flaenllaw mewn sefydlu'r Gymdeithas Lyfryddol Gymreig yn 1906 ac ef fu'r Ysgrifennydd o 1907 hyd 1951. Prin y gellir amau nad ei sêl a'i frwdfrydedd ef a sicrhodd barhad y Gymdeithas a'i thrafodion. Ymhlith ei weithiau ef ei hun gellir nodi *Select Bibliography of Owen Glyndwr* (1915), *The romantic history of the monastic libraries of Wales* (1912), *Dr Griffith Roberts, Canon of Milan* (1917), *Lady Charlotte Guest and the Mabinogion* (1921), *The Celtic countries, their literary and library activities* (1915). Hawdd yw nodi diffygion ei waith, ond mae i Rhys Phillips le anrhydeddus yn un o arloeswyr llyfryddiaeth Gymraeg fodern.

Yn 1918 enillodd wobr o £100 yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd am draethawd ar hanes dyffryn Nedd. Cyhoeddodd hwn yn 1925, *A history of the Vale of Neath*, cyfrol sy'n ffrwyth oes o chwilota a chasglu dogfennau a thraddodiadau ar bob agwedd ar ei fro ei hun.

Priododd ddwywaith, (1) â Mary Hancock, bu farw Ebrill 1926, a (2) ag Anne Watts ' Pencerddes Tawe ', Rhagfyr 1927. Bu mab, o'r briodas gyntaf, a fu farw yn 1924, a merch o'r ail briodas. Bu Rhys Phillips farw yn ei gartref Beili Glas, 15 Chaddesley Terrace, Abertawe, 22 Mawrth 1952.

Awdur

Dr Brynley Francis Roberts

Ffynonellau

Archifau LIGC: [D. Rhys Phillips Papers](#)

Papurau D. Rhys Phillips yn Llyfrgell Dinas Abertawe

Journal of the Welsh Bibliographical Society, 7 (1952), 119-121, 122-24

Journal of the Welsh Bibliographical Society, 12 (1983/84), 43-50

Who's who in Wales (1937)

The Library Association Record, 54 (1952), 189

Tom Davies yn H. T. Edwards (gol.), *Nedd a Dulais* (Llandysul 1994), tt.218-38

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [39151207](#)

Wikidata: [Q20732884](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

